

IOAN FEDYDDIWR

Dyn unigryw oedd Ioan Fedyddiwr. Bwytâi fwyd rhyfedd a gwisgai ddillad hynod. Tyrrai pobl ato i'r anialwch i wrando ar ei neges chwyldroadaol.

Egyr y Testament Newydd gydag Ioan Fedyddiwr yn galw ar y bobl i edifarhau am eu pechodau (Mathew 3:2). Uniaethodd ei hunan â'r llais oedd yn galw am baratoi ffordd i'r Arglwydd (Eseia 40:3). Gwyddai fod ganddo neges arbennig i'w chyhoeddi ac felly glynodd yn unplyg wrthi.

Safai Ioan y tu allan i'r sefydliad crefyddol parchus. Ond hyd yn oed wrth i'r bobl dyrru ato i'w bedyddio am faddeuant pechodau, fe'u cyfeiriai hwy y tu hwnt i'w hunan at "Oen Duw" (Ioan 1:29). Cyfrwng y neges oedd Ioan ac nid y neges ei hun.

Yn rhinwedd ei waith yn bedyddio'r edifeiriol daeth yn syndod i Ioan bod Iesu yn ceisio bedydd. Nid oedd gan Iesu bechod i edifarhau amdano ac felly nid oedd angen ei fedyddio. Ond mae Iesu yn uniaethu Ei Hun â'r ddynoliaeth y mae wedi dod i farw drosti (Mathew 3:15).

Parthed gwaith gwardigol Duw fe welwn fod Ioan Fedyddiwr yn dwyn tystiolaeth i ddwyfoldeb Iesu. Yn y Bedydd mae Duw y Tad yn cymeradwyo'i Fab wrth i'r Ysbryd Glân ddisgyn ar Iesu (Mathew 3:16-17). Iesu yw y Duw-ddyn perffaith sy'n Waredwr cymwys i ni.

Cryfderau

→ Rhagflaenydd y Meseia → Pregethwr dewr
→ Dyn digyfaddawd

Gwendidau

→ Amheudd Feseianaeth Iesu pan oedd yn y carchar

Gwersi

→ Nid yw Duw'n addo bywyd rhwydd i'w weision
→ Mae sefyll dros y gwir yn costio'n ddud

Ffeithiau


→ **Lleoliad:** Jwdea → **Gwaith:** Proffwyd
→ **Cyfoeswyr:** Herod a Herodias → **Perthnasau:**
Tad – Sachareias; mam – Elisabeth; cefnder – Iesu
→ Mae'r enw 'Ioan' yn golygu 'Mae'r Arglwydd yn raslon'

Adnodau

Eseia 40:3; Malachi 4:5-6; Mathew 3:1-12, 11:2-15, 14:1-12, 16:14 a 21:23-7; Luc 1:5-25, 57-80; Actau 1:5,22 a 13:24-5

Peter Davies

Croesair 'Gair yn ei le' - Dylid anfon yr atebion at Rebecca Gethin, MEC, Swyddfa'r Gogledd, 31 Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2EU, cyn 1^{af} Awst, 2017. Bydd yr ateb cywir cyntaf a dderbynr yn derbyn tocyn llyfr gwerth £10.



Ar Draws

- Y dreth drom yn peri rhoi bywyd dros gred (9).
- ____, dacw'r fan, a dacw'r pren
Yr hoeliwyd arno Dywysog nen.' (W.W.) (3).
- 'O! Dwed am yr _____, _____, _____'r euoca',
Ar ffynnon wna'r Ethiop yn wyn fel yr eira.' (D.C.) (4, 2, 1, 6).
- Cŵn sy'n dal dy sach (5).
- 'Craig _____ mewn tymhestloedd
Craig a ddeil yng ngrym y lli.' (S.J.G.) (7).
- Bustach yn neidio yn wyllt (6).
- A yw llaw Ted fel llwy fawr? (6).
- Cwacio gwyllt ynghylch Robin yn canu fel brân (7).
- Cael rhan o bris y tebot yn ôl am gnwd o'r rhandir (5).
- 'Y mae'r doeth yn trysori deall, ond dwyn _____
_____ a wna siarad ffôl' (Diarhebiau) (7, 2, 4).
- 'Fel na chaffo'r pechod atgas
_____ a tharth y pydew mawr' (W.W.) (3).
- 'Ofn yr Arglwydd yw dechrau _____' (Diarhebiau) (9).

I Lawr

- Yr adeg a'r flwyddyn i ddechrau meddwl am iechyd (3).
- O gwmpas fel tŷn gron (5).
- Treulio y mis yno yn meddwl i ti dy hun (7).
- Gwraig yn gwneud tro ac agosáu (6).
- Gwaedd fel od yn codi (5).
- '____ sydd yn y dyfroedd
A'i lwybrau oll yn gudd' (D.C.) (4, 3).
- 'Ti _____ at y morgrugyn, a sylwa ar ei ffordd a
bydd ddoeth' (Diarhebiau) (6, 3).
- Cawdel Mac yn gwneud i'm syrthio (4, 5).
- Mae Nora deg yn gallu bod yn greadur pigog (7).
- Eglura fod Eusebia yn rhifo am yn ail (7).
- Cylch y cyfamod (6).
- Teflir un o eira nid ei marchogaeth (5).
- Dim lle i symud nac anadlu (5).
- Cywasgu'r sylwebaeth yn union (3).